RNIB Cymru

Golwg gwahanol
See differently

**RNIB Cymru**
Cwrt Jones, Stryd Womanby,
Caerdydd, CF10 1BR
Tiny Rebel, Stryd Womanby,
Caerdydd, CF10 1BR

**rnib.org.uk/Cymru**
Llinell Gymorth: 0303 123 9999
helpline@rnib.org.uk

At: Aelodau o'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

23 Gorffennaf 2021

**Ynghylch: Ymchwil diweddaraf RNIB i brofiadau pleidleisio pobl ddall ac â golwg rhannol**

Rwy'n ysgrifennu at aelodau o'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i dynnu eich sylw at ymchwil diweddar a gyhoeddwyd gan RNIB i brofiadau pleidleisio pobl ddall ac â golwg rhannol sy'n datgelu bod pobl â cholled golwg yn dal i wynebu rhwystrau annerbyniol wrth arfer yr hawl ddemocrataidd sylfaenol hon, bron i 150 o flynyddoedd ar ôl i'r Ddeddf Bleidleisio sicrhau'r hawl i bleidlais gyfrinachol.

Canfu ymchwil gan RNIB, sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad 'Turned Out' atodedig, mai dim ond un ym mhob pump (19 y cant) o bleidleiswyr dall, a llai na hanner (46 y cant) o bleidleiswyr â golwg rhannol, oedd yn gallu pleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol yn yr etholiadau a gynhaliwyd ym mis Mai 2021, oedd yn cynnwys etholiadau'r Senedd. Yn ogystal, roedd llai na thraean y pleidleiswyr dall yn hapus â'u profiadau pleidleisio yn yr etholiadau eleni.

## Problemau'r system bresennol

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bob gorsaf bleidleisio fod â fersiwn print bras o'r papur pleidleisio a dyfais bleidleisio gyffyrddadwy (TVD). Templed plastig yw'r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy sy'n cael ei osod dros y papur pleidleisio er mwyn galluogi pobl ddall ac â golwg rhannol i ddod o hyd i'r blychau pleidleisio ac i wybod ble i roi eu croes.

Fodd bynnag, nid yw’n dweud wrth y pleidleisiwr beth yw enwau a phleidiau’r ymgeiswyr. Mae hyn yn golygu bod angen cymorth gan aelod o’r teulu, ffrind, neu aelod o staff yr orsaf bleidleisio i ddarparu’r wybodaeth hon ar y rhan fwyaf o bobl â cholled golwg fel eu bod yn rhoi croes yn y blwch cywir. Ym mis Mai 2019, cafodd y system hon ei datgan fel un anghyfreithlon gan ddyfarniad llys.

**Treial dyfais sain**

Ar gyfer etholiadau mis Mai, bu RNIB yn gweithio gyda Swyddfa’r Cabinet yn San Steffan er mwyn treialu dewis mwy hygyrch ar gyfer pobl â cholled golwg. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio dyfais sain mewn gorsafoedd pleidleisio a oedd yn galluogi unigolion i wrando ar enwau’r ymgeiswyr, a thrwy ddefnyddio’r ddyfais sain ochr yn ochr â dyfais bleidleisio gyffyrddadwy roedd modd i unigolion wybod enwau’r ymgeiswyr a phleidleisio heb yr angen i neb arall fod yn bresennol. Arweiniodd cyflwyno’r ddyfais sain at wahaniaeth enfawr o ran gwneud pleidleisio yn brofiad cynhwysol a hygyrch i’r rhai a gymerodd ran.

Mae’r materion eraill sy’n cael eu trafod yn yr adroddiad yn cynnwys diffyg gwybodaeth hygyrch ar gael i bobl ddall ac â golwg rhannol cyn yr etholiadau; anghysondebau o ran hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio a lefelau gwybodaeth am y ffordd orau o gefnogi pleidleiswyr dall ac â golwg rhannol ar ddiwrnod yr etholiad; a phroblemau o ran diffyg hygyrchedd gyda’r system bleidleisio drwy’r post.

**Argymhellion**

Mae RNIB yn galw am weithredu ar frys i wella profiadau pleidleiswyr dall ac â golwg rhannol cyn yr etholiadau lleol a fydd yn cael eu cynnal ym mis Mai 2022. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Sicrhau bod y chwaraewr sain a’r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy yn cael eu cyflwyno i orsafoedd pleidleisio er mwyn galluogi pobl ddall ac â golwg rhannol i bleidleisio’n annibynnol ac yn gyfrinachol
- Sicrhau bod Swyddogion Llywyddu a’u staff wedi cael hyfforddiant ar golli golwg, ac am y cymorth y dylent ei gynnig i bobl ddall ac â golwg rhannol.
- Sicrhau bod gwybodaeth sy’n cael ei darparu gan y gwasanaethau etholiadol cyn yr etholiadau mewn fformatau hygyrch
- Sicrhau bod y system pleidleisio drwy’r post yn gwbl hygyrch i bobl ddall ac â golwg rhannol

Byddem yn hapus i drefnu cyflwyniad ar ganfyddiadau'r adroddiad ar gyfer y Pwyllgor be bai hynny o gymorth i chi. Os hoffech fanteisio ar y cyfle yma, mae modd i swyddogion y Pwyllgor gysylltu ag Elin Edwards, Rheolwr Materion Allanol RNIB Cymru, drwy Elin.Edwards@rnib.org.uk.

Yn gywir

Ansley Workman
Cyfarwyddwr, RNIB Cymru